

Y Bartneriaeth Gosod Blaenoriaethau ar gyfer **Strôc** – Sut gallwch chi helpu?

Cael dweud eich dweud ar gyfer ymchwil strôc

Ydych chi:

- dros 16 oed, yn byw yn y DU, ac wedi cael strôc?
- yn berthynas neu'n ffrind agos (o unrhyw oedran*) sy'n gofalu am, neu'n cynorthwyo, rhywun sydd wedi cael strôc?
- yn weithiwr proffesiynol ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol yn gweithio gyda phobl sydd wedi cael strôc?

A oes cwestiynau am strôc sy'n bwysig i ymchwil geisio eu hateb, yn eich barn chi?
Gallai eich cwestiynau helpu gwella triniaeth, adsefydlu ac atal yn y dyfodol.

Gweler y Daflen Wybodaeth a www.stroke.org.uk/jla am fwy o fanylion.

*Os ydych chi o dan 16 oed ac yn cynorthwyo rhywun sydd wedi cael strôc, gallwch chi ond gymryd rhan os ydych chi wedi cael caniatâd gan riant / gwarcheidwad.

We're proud partners




Pa gwestiynau sydd gennych chi am strôc?

Mae strôc yn gallu effeithio ar fywyd ym mhob math o ffyrdd, fel dychwelyd i'r gwaith, perthnasoedd gyda ffrindiau a theulu, a'r gallu i wneud y pethau rydych chi eisiau eu gwneud.

O'ch profiad personol, pa gwestiynau am strôc hoffech chi iddyn nhw gael eu hateb trwy ymchwil? Gallwch ddewis hyd at 3 o bethau sy'n bwysig i chi, o unrhyw agwedd ar eich profiad.

Efallai bod gennych chi gwestiynau am y canlynol:

- pam mae strôc yn digwydd
- triniaeth neu ofal
- strôc a chyflyrau eraill
- beth mae pobl eraill yn ei feddwl am strôc
- effeithiau strôc, fel problemau emosiynol, gweithrediad rhywiol neu ar ardaloedd eraill (fel y rhai sy'n cael eu dangos yn y llun)



Rydym yn gofyn am hyd at 3 chwestiwn fel eich bod yn dechrau meddwl ynglŷn â beth sydd bwysicaf.

Mae'n iawn gadael blychau 2 a/neu 3 yn wag os nad oes gennych chi lawer o gwestiynau. Gallwch barhau ar ddalen wag os oes angen mwy o le arnoch chi.

Mae hefyd yn iawn os nad ydych chi'n gwybod sut i ysgrifennu cwestiynau ymchwil. Gallwch chi ysgrifennu yn eich geiriau eich hun. Ein gwaith ni yw troi'r hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym ni yn gwestiynau y gall ymchwilwyr weithio gyda nhw.

Trwy gymryd rhan yn yr arolwg hwn, rydych chi'n rhoi caniatâd i ni gyhoeddi eich atebion a'u defnyddio yng nghyfarfodau nesaf y Bartneriaeth. Ni fydd eich enw'n cael ei gynnwys. Ni fydd yn bosibl adnabod unrhyw un nac unrhyw sefydliad mewn gwaith na chyhoeddiadau diweddarach.

I bawb:

Fy nghwestiwn cyntaf:

Fy ail gwestiwn:

Fy nhrydydd cwestiwn:

Amdanoch chi:

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod ychydig bach amdanoch chi, er mwyn i ni allu:

- gwneud yn siŵr fod gwahanol bobl o bob cwr o'r DU yn rhoi eu barn i ni
- deall y cwestiynau sy'n cael eu gofyn gan wahanol grwpiau.

Byddai'n helpu ni pe gallech chi ateb y cwestiynau hyn.

4. Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi? (Dewiswch yr UN sy'n eich disgrifio chi orau)

- I Rwyf i wedi cael strôc ac rwyf dros **16 oed** [ewch i C5]
- Rwyf o dan **16 oed**, yn berthynas neu'n ffrind agos i rywun sydd wedi cael strôc, **yn ofalwr**, neu wedi bod **yn ofalwr** iddo/iddi – **RWYF WEDI cael caniatâd** gan fy rhiant/fy ngwarcheidwad i gymryd rhan yn yr arolwg hwn [ewch i C6]
- Rwyf o dan **16 oed**, yn berthynas neu'n ffrind agos i rywun sydd wedi cael strôc, ac **yn ofalwr**, neu wedi bod **yn ofalwr** iddo/iddi – **DYDW I DDIM WEDI cael caniatâd** gan fy rhiant / fy ngwarcheidwad i gymryd rhan yn yr arolwg hwn [Nid ydych chi'n gymwys i gymryd rhan; ewch i ddiwedd yr arolwg]
- Rwyf yn berthynas neu'n ffrind agos i rywun sydd wedi cael strôc, ac **yn ofalwr**, neu wedi bod **yn ofalwr** iddo/iddi [ewch i C5]
- Rwyf yn **weithiwr proffesiynol ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol** yn gweithio gyda phobl sydd wedi cael strôc [ewch i C10]

Ar gyfer pobl sydd wedi eu heffeithio gan strôc:

5. Beth yw eich oedran chi?

- 16-24 25-44 45-59
- 60-69 70-79 80 ac yn hŷn
- Mae'n well gen i beidio â dweud

[ewch i C6]

6. Os gallwch chi, dywedwch wrthym ni pa fath o strôc gawsoch chi, neu'r unigolyn dan eich gofal (Dewiswch un):

- Ddim yn gwybod/ansicr
- Pwl o Isgemia dros dro (TIA, mân strôc)
- Strôc isgemig (rhwysr)
- Strôc waedlifol (gwaedlif) – is-aracnoidaidd
- Strôc waedlifol (gwaedlif) – ar yr ymennydd

[ewch i C7]

7. Ym mha flwyddyn wnaethoch chi/yr unigolyn dan eich gofal gael strôc?

[ewch chi i C8]

8. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich rhywedd orau? (Dewiswch un):

- Benyw Gwryw Mae'n well gen i beidio â dweud

Arall (rhowch y term rydych chi'n ei ffafrio):

[ewch i C9]

9. Sut ydych chi'n disgrifio eich grŵp ethnig? (Dewiswch un):

- Asiaidd/Asiaidd Prydeinig Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig
- Gwyn Cymysg / grwpiau aml ethnig
- Unrhyw grŵp ethnig arall Prydeinig
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Mae'n well gen i ddisgrifio fy hun fel:

[ewch i C12]

Ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol:

10. Ble ydych chi'n gweithio? (dewiswch UN)

Ysbyty Y gymuned Ysbyty a'r gymuned

Lleoliadau trydydd sector a gwaith cymdeithasol

Arall (nodwch):

[ewch i C11]

11. Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau? (dewiswch UN)

Gweithiwr gofal proffesiynol

Deietegydd

Meddyg teulu

Niwrolegydd

Niwrolawfeddyg

Orthoptydd

Therapydd Galwedigaethol

Parafeddyg

Therapydd Lleferydd ac Iaith

Ffisiotherapydd

Staff Cymorth Adsefydlu

Seicolegydd

Gweithiwr Cymdeithasol

Nyrs Practis

Nyrs Strôc

Meddyg Strôc

Cydlynnydd Cymorth Strôc

Arall (nodwch):

[ewch i C12]

I bawb:

12. Ble ydych chi'n byw? (Dewiswch un):

Lloegr Gogledd Iwerddon Yr Alban Cymru

Mae'n well gen i beidio â dweud

Byddai hefyd o gymorth i ni wybod rhan gyntaf eich cod post (e.e. OX11):

[ewch i C13]

13. A hoffech chi gael gwybod yn rheolaidd am y Bartneriaeth?

Byddai hyn yn golygu cael gwybodaeth am sut gallwch chi gael eich cynnwys mewn penderfynu pa gwestiynau sydd bwysicaf. Wedyn, gallwch benderfynu a hoffech chi gael eich cynnwys o hyd.

Hoffwn [Ewch i C14] Na hoffwn [Ewch i beth sy'n digwydd nesaf]

Os byddwch yn dewis rhoi eich manylion cyswllt, byddwn yn eu cadw'n ddiogel, ar wahân i'ch atebion, yn unol â Pholisi Preifatrwydd y Gymdeithas Strôc. Gellir gweld hwn ar y rhynggrwyd yma:

www.stroke.org.uk/about-us/terms-and-conditions/privacy-policy.

Byddwn yn cysylltu dim ond i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y Bartneriaeth Gosod Blaenoriaethau ar gyfer Strôc.

14. Os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf, rhowch wybod i ni beth yw eich manylion cyswllt dewisol:

Enw:

E-bost **NEU** gyfeiriad post:

What happens next?

- Byddwn yn edrych ar bob un o'r cwestiynau, ac yn eu grwpio yn themâu.
 - Yn ystod haf 2020, byddwn yn eu troi yn gwestiynau ymchwil, pan fydd modd gwneud hynny. Byddwn yn gwirio ymchwil bresennol i weld pa gwestiynau sydd eisoes wedi cael eu hateb, gan nad yw pawb yn gwybod pa rai sydd wedi cael eu hateb. Byddwn yn ystyried sut orau i rannu'r wybodaeth hon pan fydd gennym y wybodaeth.
 - Os byddwn yn cael cwestiynau na all ymchwil fynd i'r afael â nhw, byddwn yn ystyried sut orau i ymateb iddynt.
 - Wedyn, bydd gennym restr hir o gwestiynau ymchwil. Byddwn yn gofyn i bobl sydd wedi eu heffeithio gan strôc, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ddweud wrthym pa gwestiynau yw'r rhai pwysicaf.
 - Yn yr hydref, byddwn yn cynnal gweithdai gyda rhai pobl sydd wedi eu heffeithio gan strôc, a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Byddant yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar y 10 prif gwestiwn mewn un categori neu fwy.
 - Wedyn, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau ac yn gweithio gyda chyllidwyr ymchwil ac ymchwilwyr i fynd i'r afael â nhw.
-

Sut gallwch chi gysylltu â ni?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y Bartneriaeth Gosod Blaenoriaethau ar gyfer Strôc, neu os hoffech gael copi papur o'r arolwg (gydag amlen ddychwelyd), anfonwch neges e-bost at **Sandra.regan@stroke.org.uk** neu ffoniwch Sandra ar **07703 319791**.

E-bostiwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i **Sandra.Regan@stroke.org.uk**

I gael mwy o wybodaeth am y Bartneriaeth Gosod Blaenoriaethau ar gyfer Strôc, ewch i **www.stroke.org.uk/jla**

Gallwch ein dilyn ni ar Twitter hefyd, sef: Twitter @PspStroke
#MySayforStroke

Os yw cymryd rhan yn yr arolwg hwn wedi codi unrhyw bryderon, ac yr hoffech chi siarad â rhywun, gallwch ffonio Llinell Gymorth y Gymdeithas Strôc ar 0303 3033 100 neu anfonwch neges e-bost i **helpline@stroke.org.uk**.

Os ydych chi'n byw yn Yr Alban, gallwch chi hefyd gysylltu â Llinell Gyngor Chest, Heart and Stroke Scotland:

Rhadffôn: **0808 801 0899**.

E-bost: **adviceline@chss.org.uk**

Testun: **NURSE i 66777**

Diolch yn fawr am gymryd rhan.